| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 11 Gorffennaf 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh (Pennaeth Cyllid) |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **Teitl:** | **Datganiad Drafft o Gyfrifon 2017/18** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Darparu trosolwg o'r Datganiad drafft o Gyfrifon 2017/18 a'r broses sy'n sail iddo.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo i gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a fydd yn cael eu cyflwyno ar 26 Medi 2018. Mae cyflwyno'r cyfrifon drafft yn rhoi arwydd cynnar o sefyllfa ariannol y cyngor a gall dynnu sylw at unrhyw broblemau yn y cyfrifon neu'r broses cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
Nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y cyfrifon drafft (gweler Atodiad 1).

**4. Manylion yr Adroddiad**
Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y Cyngor. Mae'r rôl hon wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r cyfrifon drafft bellach wedi eu cwblhau ac wedi'u llofnodi gan y Pennaeth Cyllid ar 15 Mehefin (gan fodloni'r dyddiad dros dro ar gyfer cau cynnar a fydd yn orfodol y flwyddyn nesaf). Mae'r cyfrifon drafft ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn a byddan nhw ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio rhwng 9 Gorffennaf a 3 Awst.

O ystyried rôl y Pwyllgor o ran cymeradwyo'r cyfrifon terfynol, mae'n fanteisiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg ar y cam drafft i'w ystyried cyn cyflwyno'r cyfrifon terfynol ym mis Medi.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**
Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**
Caiff gweithdrefnau a phrosesau'r cyngor sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon eu hadolygu'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol ei llunio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu cyfrifon yn gadarn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Byddai'r Cyngor yn mynd yn groes i'w ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.